Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2020 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2175A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau 10

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 13

Atodiad 2 – ffi archwilio 15

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 16

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2020 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- fy argyhoeddi fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau; a hefyd
- fy argyhoeddi fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

2 Rwy'n nodi fy nghanfyddiadau ar y cyfan dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o'r Cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

3 Digwyddodd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19. O ystyried ei effaith, fe wnes i ail-lunio fy rhaglenni gwaith arfaethedig trwy ystyried sut orau i sicrhau pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Fe ystyriais effaith yr argyfwng cyfredol ar gydnerthedd gwasanaethau cyhoeddus a'u ffurf yn y dyfodol ac roeddwn yn amcanu at sicrhau na fyddai fy ngwaith yn amharu ar ymdrechion cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau hefyd ei fod yn parhau i gefnogi craffu a dysgu. Cafodd yr holl waith archwilio ar safleoedd ei atal tra'r oeddem yn dal i weithio ac ymgysylltu o bell lle'r oedd yn bosibl trwy ddefnyddio technoleg. Mae'n anorfod bod hyn wedi cael effaith ar gyflawni peth o'm gwaith archwilio arfaethedig ond mae hefyd wedi ysgogi newidiadau cadarnhaol i'n ffyrdd o weithio.

4 Nid oedd fy ngwaith i archwilio'r cyfrifon heb ei heriau, nid dim ond o ran sut a ble yr oeddem yn gwneud y gwaith, ond hefyd o ran rhoi sylw i ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol a oedd yn codi'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r llwyddiant i gyflawni'n unol â'r amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu cydymdrech gwych gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd i gofleidio a galluogi ffyrdd newydd o weithio a pharhau i fod yn hyblyg i'r materion niferus a oedd yn codi ac yn ystyriol ohonynt.

5 Ar ddechrau'r pandemig fe wnes i atal gwaith i gyhoeddi rhai adroddiadau archwilio perfformiad a oedd yn nesáu at gael ei gwblhau, gan adlewyrchu capasiti cyrff a archwilir i gefnogi gwaith maes a oedd yn weddill a chyfrannu at glirio allbynnau archwilio drafft. Rwyf hefyd wedi addasu ffocws a dull rhai adolygiadau arfaethedig eraill i sicrhau eu perthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng. Mae ffrydiau gwaith

newydd wedi cael eu cyflwyno, megis fy adolygiad o'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, ac mae fy nhimau archwilio lleol wedi cyfrannu at fy ngwaith dysgu COVID-19 ehangach.

6 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau mwy manwl i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws gwaith arfaethedig sy'n cael ei ail-gwmpasu ar hyn o bryd.

7 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu costau gwneud fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2020.

8 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2020 a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy drwy'r archwiliad.

9 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad wedi cytuno bod yr adroddiad hwn yn ffeithiol gywir. Fe gyflwynom ni'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 4 Chwefror 2021. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad yn un o gyfarfodydd diweddarach y Bwrdd a bydd pob aelod yn cael copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei fod yn cael ei gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn trefnu bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

10 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu help a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

11 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn faterol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i). Fodd bynnag, gosodais baragraff Pwyslais ar Fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â Chyfarwyddyd Gweinidogol i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn staff clinigol y GIG mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20. Nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn. Tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio hefyd at un mater ynghylch yr oedi cyn cael gwybodaeth a oedd yn ofynnol ar gyfer archwilio'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol.

12 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ac ni chyflawnodd unrhyw drafodion ariannol perthnasol eraill nad oeddent yn unol â'r awdurdodau neu heb eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd 2019-20.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

13 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

- fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da gan addasu ei drefniadau llywodraethu'n gyflym i ymateb i heriau'r pandemig;
- mae rheolaeth ariannol yn dal i fod yn gadarn ond mae costau parhaus sy'n ymwneud â COVID-19 yn creu risg o ddiffyg ariannol;
- mae cynlluniau chwarterol yn nodi trefniadau ar gyfer ailgychwyn gwasanaethau wedi'u cynllunio mewn modd diogel a'r adnoddau sy'n ofynnol, er nad yw'r drefn i adrodd ar gyflawni hynny wedi cael ei sefydlu eto; ac
- mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i atal twyll, mae ganddo drefniadau addas i roi cymorth i atal a chanfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.

14 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

15 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20. Trwy gyfrwng y datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian. Mae paratoi'r datganiadau'n elfen hanfodol o ddangos stiwardiaeth briodol ar arian cyhoeddus.

16 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2019-20. Mae Arddangosyn 4 yn Atodiad 3 yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

17 Caiff fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi datganiadau ariannol 2019-20

18 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi cael eu paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni chanfu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad i). Fodd bynnag, gosodais baragraff pwyslais ar fater yn fy adroddiad i dynnu sylw at ddatgeliadau yn y cyfrifon sy'n ymwneud â rhwymedigaethau treth pensiwn staff clinigol a ysgwyddwyd gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019-20. Nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn. Tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at nifer o faterion hefyd, gan gynnwys un mater ynghylch yr oedi a brofwyd cyn cael gwybodaeth a oedd yn ofynnol ar gyfer archwilio'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol.

19 Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ynglŷn â'r cyfrifon. Fe nododd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn wrth Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 24 Mehefin 2020. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oes unrhyw gamddatganiadau a nodwyd yn y cyfrifon, sy'n dal i fod heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Roedd nifer o gamddatganiadau yn y cyfrifon a gywirwyd gan y rheolwyr. Ni chafodd yr un o'r camddatganiadau a gywirwyd effaith ar y sefyllfa ariannol ar y cyfan. Fe'u dygais i'ch sylw oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi am y broses adrodd ariannol.<br>Hefyd, roedd mân gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr ac ni effeithiodd y mân gywiriadau ariannol hyn ar y gwarged yr adroddwyd arno. Nid oeddwn yn tybio bod angen eu dwyn i'ch sylw fel rhan o'ch cyfrifoldebau am y broses adrodd ariannol. |
| Materion arwyddocaol eraill | Gofynnais i'r Bwrdd Iechyd nodi yn Nodyn 21.1 – Rhwymedigaethau digwyddiadol – o'r datganiadau ariannol, naratif ychwanegol i ddatgelu'r rhwymedigaeth a allai ddeillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol i Lywodraeth Cymru ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn uwchlaw trothwy lwfans blynyddol cynilion pensiwn yn 2019-20. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatgelu bodolaeth rhwymedigaeth ddigwyddiadol ar 31 Mawrth 2020, ac ni chafodd fy marn ei haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.<br>Mewn blynyddoedd blaenorol, rwyf wedi dod ar draws oedi cyn cael tystiolaeth briodol i ategu fy archwiliad o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol. Cyfarfûm â'r Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2019 i drafod gofynion o ran papurau gwaith ac amserlenni i'm galluogi i gwblhau'r archwiliad ym mis Ebrill 2020. Ni chydymffurfiwyd â'r amserlenni hyn, ac ni chwblhawyd fy adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol tan 19 Mehefin 2020. |

20 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ac er gwaethaf heriau gweithio o bell mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, darparwyd y cyfrifon heb eu harchwilio

ar gyfer yr archwiliad o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, ac roedd y papurau gwaith a ddarparwyd o ansawdd da, a'i gwnaeth yn bosibl cwblhau'r archwiliad o fewn y terfynau amser statudol diwygiedig. Daeth y rhan fwyaf o'r dystiolaeth archwilio i law fy nhîm archwilio mewn fformat electronig ac fe ddefnyddion nhw amryw dechnegau i sicrhau ei dilysrwydd. Lle nad oedd fy nhîm archwilio'n gallu cael mynediad at ddogfennau papur oherwydd cyfyngiadau COVID-19, lluniwyd methodolegau archwilio eraill i gael tystiolaeth archwilio ddigonol, yn benodol:

- darparodd y Tîm Ariannol dystiolaeth archwilio ar gyfer y tîm archwilio trwy borth rhannu ffeiliau diogel;
- roedd y Tîm Cyllid ar gael trwy fideo-gynadledda ar gyfer trafodaethau, a rhannu gwybodaeth a thystiolaeth ar y sgrin;
- fe wnes i hefyd sicrhau mynediad darllen yn unig at gyfriflyfr Oracle y Bwrdd Iechyd, a alluogodd fy nhîm archwilio i gynnal ymholiadau ynghylch y cyfriflyfr ac felly lleihau'r baich ar y Tîm Cyllid i ddarparu'r wybodaeth hon; ac
- i brofi bodolaeth a pherchnogaeth ar asedau, fe ddefnyddiodd fy nhîm archwilio gyfuniad o adnabyddiaeth weledol (lle'r oedd hyn yn ymarferol), mynediad at offeryn cofrestrfa tir Archwilio Cymru a thystiolaeth ffotograffig.

21 Rydym yn cydnabod camp aruthrol y tîm Cyllid i baratoi'r datganiadau ariannol i safon dda, yn wyneb yr heriau a achoswyd gan y pandemig.

22 Fe gynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad fod yr wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2020 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

23 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol wedi cael ei gwblhau. Cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo gan Bwyllgor y Cronfeydd Elusennol ar 13 Ionawr 2021, yn dilyn ystyried fy adroddiad ar y datganiadau ariannol a byddant yn cael eu llofnodi gan yr Ymddiriedolwyr ar 27 Ionawr. Byddaf yn cyhoeddi'r farn archwilio ar 28 Ionawr 2021.

## Rheoleidd-dra Trafodion Ariannol

24 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ac ni chyflawnodd unrhyw drafodion ariannol perthnasol eraill nad oeddent yn unol â'r awdurdodau neu heb eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd 2019-20.

25 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i gael yr incwm ac ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad yw'r Bwrdd Iechyd yn meddu ar y pwerau i'w gael neu ei ysgwyddo.

26 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn mantoli'r cyfrifon, mae ei wariant yn mynd y tu hwnt i'w bwerau i wario ac felly rhaid i mi amodi fy marn ynglŷn â rheoleidd-dra. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros y tair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20 ac i gadw gwarged yn ystod y flwyddyn (£32,000) ar gyfer 2019-20.

27 Mae gennyf y pŵer i osod adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barnau lle mae arnaf eisiau amlygu materion. Gan bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddwy ddyletswydd ariannol: i fantoli'r cyfrifon (fel a nodir uchod) ac i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy, a chan nad oedd unrhyw faterion eraill a oedd yn cyfiawnhau cyhoeddi adroddiad, ni chyhoeddais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau

28 Mae'n ofynnol yn statudol fy mod yn fy argyhoeddi fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth o ran defnyddio adnoddau. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- cwblhau asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; ac
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau atal twyll y Bwrdd Iechyd.

29 Caiff fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn eu nodi isod.

## Asesiad strwythuredig

30 Cafodd fy ngwaith asesu strwythuredig ei ddylunio yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig. Fe sicrheais ddull digon pragmatig a pherthnasol i'm helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, gan hefyd effeithio gyn lleied â phosibl ar gyrff y GIG wrth iddynt ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Roedd ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i gynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol lle'r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

31 Roedd yr asesiad strwythuredig yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a

- chynllunio gweithredol: i ategu'r ymateb parhaus i'r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

## Trefniadau llywodraethu

32 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn ac yntau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achoswyd gan y pandemig. Canfu fy ngwaith fod **y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da gan addasu ei drefniadau llywodraethu'n gyflym i ymateb i heriau'r pandemig**.

33 Mae Bwrdd sefydlog a chydnerth wedi arwain y sefydliad trwy'r pandemig, gyda chamau'n cael eu cymryd i roi cymorth i gynnal busnes yn agored a gwneud penderfyniadau'n gyflym. Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn ymrwymedig i wella'n barhaus ac i ddysgu gwersi i lunio a chryfhau trefniadau llywodraethu.

34 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau agweddau ar sicrwydd y bwrdd a rheoli risgiau ac wedi cynnal mecanweithiau sicrwydd pwysig yn ystod COVID-19, ond mae cyfleoedd pellach yn bodoli. Mae risgiau strategol wedi'u disgrifio'n glir, a'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi'i mireinio, ond nid yw trosolwg systematig gan y Bwrdd ar risgiau i gyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol yn ei le eto. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal systemau sicrhau ansawdd a diogelwch ar gyfer cleifion a'r gweithlu ac mae cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio'n dal i fod yn destun craffu a herio.

## Rheoli adnoddau ariannol

35 Fe ystyriais berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno. Canfûm fod rheolaeth ariannol yn dal i fod yn gadarn ond bod costau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn creu risg o ddiffyg ariannol.

36 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol ac yn 2019-20 fe wnaeth fantoli'r cyfrifon a chyflawni ei ddyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd. I fantoli'r cyfrifon yn 2020-21, fe bennodd y Bwrdd Iechyd darged arbedion o £33 miliwn (gan gynnwys £7 miliwn o arbedion effeithlonrwydd gweithredol) i fynd i'r afael â phwysau o ran costau, ac i roi cymorth i symud adnoddau yn unol â'i flaenoriaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn amcangyfrif diffyg mewn arbedion o oddeutu £28 miliwn oherwydd yr ymateb parhaus i COVID-19. Ar ddiwedd mis Tachwedd, roedd wedi cyflawni £5.5 miliwn o arbedion ac mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni £5 miliwn arall erbyn mis Mawrth 2021.

37 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2020-21 o ystyried y cyllid refeniw ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu sefydlogrwydd ariannol am weddill 2020-21. Ar ddiwedd mis Tachwedd 2020, roedd sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn dangos gwarged bach (£572,000).

### Cynllunio Gweithredol

38 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gwasanaethau arferol a rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny. Canfu fy ngwaith fod cynlluniau chwarterol yn nodi sut y bydd gwasanaethau wedi'u cynllunio'n cael eu hailgychwyn yn ddiogel a pha adnoddau fydd eu hangen, er nad yw'r drefn ar gyfer adrodd ar eu cyflawni wedi cael ei sefydlu eto.

39 Cafodd cynlluniau gweithredol chwarterol eu datblygu mewn ffordd amserol. Caiff y cynlluniau chwarterol eu goleuo gan ymarfer modelu data ac maent yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru yn ogystal ag elfennau pwysig o Strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd[1]. Mae cynlluniau adnoddau'n canolbwyntio ar sicrhau staffio digonol a chapasiti digonol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio gyda ffocws ar ddatblygu ffyrdd ystwyth a newydd o weithio. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd ar gyflawni ei gynlluniau chwarterol eto; mae disgwyl iddo adrodd yn ffurfiol ym mis Tachwedd.

## Effeithiolrwydd trefniadau atal twyll

40 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddais drosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a oedd yn disgrifio trefniadau atal twyll yn sector cyhoeddus Cymru. Wedyn cynhaliodd fy nhîm archwiliad mwy manwl ar draws ystod o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau atal twyll yn ymarferol ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Ym mis Gorffennaf 2020 fe gyhoeddais Gwella Ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru a oedd yn nodi crynodeb o'm canfyddiadau a saith 'thema allweddol' y mae angen i'r holl gyrff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt i wella'u perfformiad i fynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol.

41 Er nad oedd y gwaith hwn wedi'i gynnwys yng nghynllun archwilio'r Bwrdd Iechyd, fe wnes i hefyd gyhoeddi adroddiad ychwanegol a oedd yn nodi trefniadau penodol y Bwrdd Iechyd ar gyfer atal a chanfod twyll. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad i atal twyll, bod ganddo drefniadau addas i roi cymorth i atal a chanfod twyll a'i fod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.

[1] Y Strategaeth Dyfodol Clinigol yw strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd ar gyfer moderneiddio gwasanaethau clinigol ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyhoeddwyd ar y Bwrdd Iechyd yn 2020.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Mehefin 2020 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2020 |
| Cronfeydd Elusennol - Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Barn ar y Datganiadau Ariannol | Rhagfyr 2020 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Effeithiolrwydd trefniadau atal twyll | Awst 2020 |
| Asesiad Strwythuredig 2020 | Medi 2020 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2020 | Mawrth 2020 |

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal ar y gweill**

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau pan ragwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

| **Adroddiad** | **Dyddiad cwblhau a ragwelir** |
|---|---|
| Orthopaedeg | Ionawr 2021 |
| Adolygiad o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Chwefror 2021 |
| Profi, Olrhain a Diogelu | Chwefror 2021 |
| Gofal heb ei drefnu | Cam 1 – Chwefror 2021<br>Gwaith pellach i gael ei gynnwys fel rhan o gynllun archwilio 2021 |
| Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Gorffennaf 2021 |
| Adolygiad o Drefniadau i Sicrhau Effeithlonrwydd | Mawrth 2021 |
| Gwasanaethau radioleg: gwaith dilynol ar argymhellion 2017 | Gorffennaf 2021 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2020 yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig o £382,146 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod peth gwaith yn dal i fynd rhagddo, yn gyson â'r ffi a oedd wedi'i nodi yn yr amlinelliad.

Yn ychwanegol at y ffi a nodir uchod, fe wnaeth y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarperir ar gyfer y Bwrdd Iechyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gostio £8,770.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 4: risgiau archwilio ariannol**

Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2020 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd 2019-20. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Gallai argyfwng cenedlaethol COVID-19 achosi oedi sylweddol cyn paratoi ac archwilio'r cyfrifon. Er bod y Bwrdd Iechyd yn dal i weithio tuag at yr amserlen wreiddiol ar gyfer cynhyrchu ac ardystio datganiadau ariannol (28 Ebrill a 29 Mai yn y drefn honno) ar hyn o bryd, mae'r amserlen ddiwygiedig o fewn GIG Cymru (22 Mai a 30 Mehefin yn y drefn honno) yn dal i fod yn gryn her. Mae argyfwng cenedlaethol COVID-19 yn cynyddu'r risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol gael ei beryglu gan arwain at fwy o wallau; a gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu peryglu oherwydd materion amseru a/neu argaeledd adnoddau. Gallai mynediad at lefel briodol o dystiolaeth archwilio gael ei beryglu hefyd, a allai | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• parhau i gynnal cyswllt wythnosol â'r Bwrdd Iechyd i fonitro'r cynnydd o ran cau a pharatoi cyfrifon;<br>• rhoi cymorth a chyngor i'r Bwrdd Iechyd lle bynnag y bo'n bosibl heb beryglu ein hannibyniaeth;<br>• cynnal cyswllt agos â'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad o'r datganiadau ariannol, gan amlygu achosion lle mae cael lefelau priodol o dystiolaeth archwilio'n her; a<br>• pharhau i fod yn hyblyg lle mae'r amserlen ar gyfer archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol yn y cwestiwn. | Trwy gynnal cyswllt agos gyda'r Bwrdd Iechyd trwy gydol y broses o baratoi'r cyfrifon heb eu harchwilio ac yn ystod y broses archwilio, fe gwblhaodd fy nhîm archwilio'r archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd o fewn yr amserlenni cytunedig a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| arwain at farn archwilio wedi’i haddasu | | |
| Mae’r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau’n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o’r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a hefyd<br>• gwerthuso’r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. | Ni wnaeth fy mhrofion archwilio ganfod unrhyw bryderon ynghylch y risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau. |
| Ceir risg arwyddocaol y bydd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) yn methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf i fantoli’r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd. Mae’r sefyllfa ym mis 11 yn dangos diffyg yn y flwyddyn hyd yma o £0.633 miliwn ac er bod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd yn mantoli’r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, ceir nifer o risgiau i’r sefyllfa hon | Bydd fy nhîm archwilio’n canolbwyntio’i brofion ar feysydd yn y datganiadau ariannol a allai gynnwys gwyrduedd o ran adrodd. | Ni chanfu fy mhrofion archwilio unrhyw feysydd yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd a oedd yn cynnwys gwyrduedd o ran adrodd.<br><br>Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i fantoli’r cyfrifon dros y tair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20 ac i gadw gwarged yn ystod y flwyddyn (£32,000) ar gyfer 2019-20. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| gydag amrediad risg ariannol 'achos gwaethaf' hyd at £5.2 miliwn a allai wthio'r Bwrdd Iechyd i mewn i ddiffyg. Lle mae'r Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol i amlygu'r methiant. Mae'r pwysau ariannol cyfredol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon gan reolwyr fod yn wyrdueddol mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol | | |
| Ar 18 Rhagfyr 2019 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru Gyfarwyddyd Gweinidogol ffurfiol i'r Ysgrifennydd Parhaol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddi weithredu menter 'y cynllun yn talu' mewn perthynas â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol. | Mae fy Nhîm Technegol yn ystyried goblygiadau'r cyfarwyddyd (y cyntaf yng Nghymru ers 1999) o ran triniaeth gyfrifyddu ac archwilio ar y cyd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sydd wrthi'n mynd i'r afael â'r un mater yn NHS England. | At ddiben datganiadau ariannol 2019-20, daeth fy Nhîm Technegol i'r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth ynghylch defnydd o'r cynllun ac na ellid llunio amcangyfrif dibynadwy ar yr adeg hon. Felly tybiwyd mai triniaeth fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol gyda datgeliad digonol oedd y driniaeth gyfrifyddu briodol.<br><br>Gofynnais i'r Bwrdd Iechyd nodi yn Nodyn 21.1 – Rhwymedigaethau digwyddiadol – o'r datganiadau ariannol, |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| | | naratif ychwanegol i ddatgelu'r rhwymedigaeth a allai ddeillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol i Lywodraeth Cymru ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn uwchlaw trothwy lwfans blynyddol cynilion pensiwn yn 2019-20. Fe gynhwysais baragraff pwyslais ar fater yn fy adroddiad archwilio yn tynnu sylw'r darllenydd at y datgeliad ychwanegol hwn. |
| Gallai cyflwyno IFRS 16 Prydlesi yn 2020-21 achosi risgiau o ran ei rhoi ar waith. | Bydd fy nhîm yn gwneud peth gwaith cynnar i adolygu parodrwydd ar gyfer cyflwyno IFRS 16 Prydlesi. | Mae cyflwyno IFRS Prydlesi wedi cael ei ohirio tan 2021-22. Bydd fy nhîm yn trefnu bod unrhyw wybodaeth a gafwyd trwy waith archwilio a wnaed eisoes yn cael ei dwyn ymlaen i asesu parodrwydd y Bwrdd Iechyd ar gyfer cyflwyno'r safon newydd wrth gynllunio ein gwaith archwilio ar gyfer 2021-22. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.